# Adroddiad Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Gâr

## Mehefin 2025



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Yn unol â'r dyletswyddau perfformiad dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, comisiynodd Cyngor Sir Gâr Asesiad Perfformiad Panel (APP) trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

1.2 Cwblhawyd yr asesiad ar y safle dros gyfnod o bedwar diwrnod, a daeth i ben ar 13 Mehefin 2025 gyda chyflwyniad o adborth i'r Cyngor yn egluro'r prif ganfyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

1.3 Cafodd yr asesiad ei gynnal yn seiliedig ar y ddogfen gwmpasu y bu i'r Cyngor gytuno arni a methodoleg APP CLILC, a ddatblygwyd gyda'r sector. Mae methodoleg APP yn darparu fframwaith cyffredinol: nid yw pob trywydd holi wedi'u pennu'n bendant, ond yn hytrach yn rhoi arweiniad i'r Panel ar y meysydd a allai gael eu harchwilio i fodloni'r ddyletswydd statudol. Fodd bynnag, dylai'r graddau y mae'r Panel yn archwilio'r meysydd hynny fod yn gymesur â chwmpas y Cyngor, ond yn ddigonol i'r Panel allu dod i ryw gasgliad.

1.4 Yn unol â'r canllawiau statudol, nid archwiliad nac arolygiad mo'r APP ac nid yw'n ceisio dyblygu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan reoleiddwyr a chyrff eraill. Er bod y Panel wedi cynnal asesiad corfforaethol, nid oedd yr asesiad hwn yn un trwyadl a dylid ei ystyried ochr yn ochr â ffynonellau sicrwydd eraill fel hunanasesiad y Cyngor ei hun, adolygiadau archwilio mewnol ac adolygiadau archwilio a rheoleiddio allanol.

1.5 Wrth baratoi at yr APP, fe wnaeth y Cyngor fesur cwmpas eu hanghenion er mwyn sicrhau'r gwerth a'r effaith fwyaf i'r asesiad ar gyfer y Cyngor. Mae'r meysydd penodol roedd y Cyngor eisiau canolbwyntio arnynt i'w gweld ym mharagraff 3.2.

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cryno o ganfyddiadau'r Panel wedi'u hadrodd yn ôl eithriadau.

## 2. Tîm Cymheiriaid

2.1 Comisiynwyd y cymheiriaid canlynol gan CLILC i gynnal yr asesiad. Cytunwyd ar y detholiad o gymheiriaid yn ôl disgresiwn y Cyngor, ar sail addasrwydd eu sgiliau a'u profiad:

- Cadeirydd Annibynnol: Fiona Lees - Cyn Brif Weithredwr, Cyngor Dwyrain Ayrshire a Swyddog Canlyniadau.
- Uwch Aelod o'r Cymheiriaid: Y Cynghorydd Gwyneth Ellis - Cynghorydd mewn Swydd a chyn Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb am gyllid, asedau a pherfformiad yng Nghyngor Sir Ddinbych.
- Uwch Swyddog o'r Cymheiriaid: Rob Thomas - Prif Weithredwr Cyngor Bro Morgannwg.
- Cymar o'r Sectorau Cyhoeddus, Preifat neu Wirfoddol Ehangach: David Powell – Ymgynghorydd, cyn swyddog adran 151 yng Nghyngor Sir Powys a Chyngor Swydd Henffordd a chyn Brif Weithredwr dros dro yng Nghyngor Sir Powys.

2.2 Cefnogwyd y Panel gan, Cerith Thomas, Uwch Swyddog Polisi (Gwelliant – Gwasanaethau Democrataidd) ac Emily Griffiths (Uwch Swyddog Cefnogi), y ddwy o Dîm Gwelliant CLILC.

## 3. Cwmpas a Dull

3.1 Mae gofyn i'r Panel asesu i ba raddau y mae'r Cyngor:

- Yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol.
- Yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, effeithlon ac effeithiol; ac
- Yn gweithredu trefniadau llywodraethu effeithiol i sicrhau'r uchod.

3.2 Nododd y Cyngor y maes canlynol o fewn ei Wasanaethau Plant y byddai barn cymheiriaid yn ei gylch yn werthfawr fel rhan o asesiad y Panel:

- Pa gamau ataliol pellach y gallai'r Cyngor eu harchwilio er mwyn lleihau'r galw am wasanaethau yn y dyfodol a galluogi dad-ddwysáu mwy ar anghenion gofal i wasanaethau cefnogi lefel is; a,
- Pha gamau ychwanegol y gallai'r Cyngor eu cymryd i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng darparu gofal diogel ac effeithiol a chost y ddarpariaeth, er mwyn datblygu model busnes cynaliadwy ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol?

Bydd un argymhelliad yn cael ei ddarparu ar gyfer y maes lleol ychwanegol hwn a bydd yn cael ei gyflwyno mewn dwy ran, a nodir gan y Cyngor.

3.3 Er mwyn paratoi ar gyfer yr asesiad ar y safle, fe wnaeth y Panel gynnal adolygiad o'r ddesg o ddogfennau, data, adroddiadau allanol a gwybodaeth berthnasol arall gan y Cyngor yn y lle cyntaf. Yn ogystal, bu i'r cymheiriaid gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhagarweiniol ar-lein ac arsylwi cyfarfodydd amrywiol gan y Cyngor ar-lein.

3.4 Treuliodd y Panel oddeutu 240 awr a mwy yn ystod y cam o'r adolygiad ar y safle, a oedd yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd unigol a grwpiau ffocws gyda'r budd-ddeiliaid canlynol:

- Arweinydd y Cyngor.
- Y Prif Weithredwr.
- Y Cabinet – Grŵp Ffocws.
- Aelod Cabinet Adnoddau.
- Aelod Cabinet Trefniadaeth a'r Gweithlu.
- Aelod Cabinet Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Aelodau Etholedig – aelodau anweithredol ac aelodau'r wrthblaid – Grŵp Ffocws.
- Arweinydd yr Wrthblaid.
- Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.
- Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
- Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Tîm Rheoli Corfforaethol.
- Cyfarwyddwr Cymunedau (gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion).
- Prif Weithredwr Cynorthwyol – Pobl, Polisi a Digidol.

- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Adran 151.
- Pennaeth Gwasanaethau Ariannol.
- Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol.
- Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil (Swyddog Monitro).
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant ac Addysg.
- Pennaeth Plant a Theuluoedd.
- Cyfarwyddwr Lleoedd, Isadeiledd a Datblygiad Economaidd.
- Pennaeth Datblygu Economaidd ac Eiddo.
- Rheolwr Trawsnewid ac aelodau staff o'r Tîm Trawsnewid.
- Prif Swyddog Digidol.
- Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau (Gwasanaethau i Gwsmeriaid).
- Rheolwr Partneriaeth, Perfformiad a Pholisi Corfforaethol.
- Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.
- Gwasanaethau Plant - Grŵp Ffocws Staff.
- Penaethiaid Gwasanaeth - Grŵp Ffocws.
- Penaethiaid - Grŵp Ffocws.
- Rheolwyr Canol/ Haen 3 – Grŵp Ffocws.
- Cyngor yr Ifanc – Grŵp Ffocws.
- Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion.
- Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Sir a Dinas Abertawe.
- Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
- Heddlu Dyfed Powys – Ditectif Brif Uwch-arolygydd Dros Dro.
- Cynghorau Tref a Chymuned – Grŵp Ffocws.
- Undebau Llafur – Grŵp Ffocws.
- Y Gymuned Fusnes – Grŵp Ffocws.
- Rhwydwaith Heneiddio'n Dda – Grŵp Ffocws.
- Costau Byw – Ymweliad Digwyddiad Partner.

## 4. Casgliad Cyffredinol

**Mae Sir Gâr yn sefydliad sy'n cael ei redeg yn dda ac sy'n seiliedig ar werthoedd ac mae yno arweinyddiaeth gadarn a gweladwy ar lefel wleidyddol a Swyddogion, ac mae'n ymwybodol o'i brif heriau.**

4.1 Nodweddir Cyngor Sir Gâr gan ddiwylliant agored a chefnogol, y mae Swyddogion ac Aelodau'n ei werthfawrogi'n fawr. Mae'r amgylchedd cadarnhaol hwn yn meithrin uchelgais bendant i ddarparu gwasanaethau yn effeithiol ar gyfer cymunedau Sir Gâr, ochr yn ochr ag ymdeimlad amlwg o falchder o weithio i'r sefydliad.

4.2 Caiff cyfeiriad strategol y Cyngor ei ddiffinio'n glir gan ei strategaeth gorfforaethol, sy'n cynnig sylfaen gadarn ar gyfer blaenoriaethu gwaith o ran pobl a lleoedd. Ymhellach, mae gan y Cyngor ddealltwriaeth gadarn o'i sefyllfa bresennol, gan gynnwys ei sefyllfa ariannol a phwysau o ran galw ar wasanaethau. Mae'r ymwybyddiaeth gynhwysfawr hon yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynnydd parhaus a gwneud penderfyniadau effeithiol.

## 5. Cyd-destun Lleol

Proffil Sir Gâr *(ffynhonnell: dyfyniadau o ddogfen cwmpasu APP Sir Gâr).*

5.1 Mae Sir Gâr, y drydedd sir fwyaf yng Nghymru o ran arwynebedd daearyddol, yn gartref i oddeutu 188,000 o bobl**,** gan olygu mai hi yw'r bedwaredd sir fwyaf poblog. Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman yw prif drefi'r Sir. Mae'n sir wledig yn bennaf, ac mae 61% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig, gyda dwysedd poblogaeth isel o 79 o bobl fesul cilomedr sgwâr**.** Mae'r sir yn wynebu poblogaeth sy'n heneiddio gyda 24% o'r preswylwyr dros 65 oed, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 29% erbyn 2035, gan arwain at heriau ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a llafur.

5.2 Gwyn yw'r boblogaeth yn bennaf (97.2%)**,** ac mae 94.0% yn nodi eu bod yn Gymry/ Saeson/ Albanwyr/ Gwyddelod o Ogledd Iwerddon/ Prydeinwyr. Er bod amrywiaeth ethnig yn isel, mae'n cynyddu'n raddol gyda mwy o breswylwyr o Rwmania, Gwlad Pwyl, y Dwyrain Canol ac Asia.

5.3 Mae'r Gymraeg yn rhan allweddol o hunaniaeth Sir Gâr, ac mae yno 72,838 o siaradwyr Cymraeg (39.9% o'r boblogaeth)**.** Er gwaethaf gostyngiad o 4.0% ers 2011, dyma'r ail sir â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg ymysg awdurdodau lleol Cymru o hyd.

5.4 Mae tlodi yn effeithio ar 34.6% o bob aelwyd (28,695 o aelwydydd)**,** sy'n gynnydd o 0.8% ers 2020. Mae mwy nag 11,000 o blant (29.5%) yn byw mewn tlodi. Mae 5 ardal yn Llanelli ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru**.**

5.5 Yn gyffredinol, mae iechyd a lles yn dda (64% o breswylwyr yn cytuno), ond mae gan y Sir nifer uwch na'r cyfartaledd o unigolion sydd ag anableddau (23%) ac aelwydydd sydd â dau neu fwy o bobl anabl (9.4%)**.**

5.6 Yn economaidd, mae gan Sir Gâr gyfradd anweithgarwch economaidd uwch na'r cyfartaledd (26%), a chyfradd gyflogaeth is (72.1%) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru. Mae cyflog wythnosol gweithwyr llawn amser yn Sir Gâr yn £623, sef tua 96% o gyfartaledd y DU. Mae sylfaen fusnes y Sir yn ehangu, a micro-fentrau a

mentrau bychain ydynt yn bennaf (98.7% o'r holl fusnesau), sy'n cyflogi 36,000 o bobl. Mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, yn bennaf ym meysydd iechyd, addysg a gweinyddiaeth gyhoeddus, yn cyfrif am 36% o'r holl swyddi.

5.7 Mae gan y sir rwydwaith priffyrdd mawr o dros 3,500km a chysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd da rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Fodd bynnag, mae lefel isel o fodlonrwydd o ran cludiant cyhoeddus ac mae 56% o breswylwyr yn anghytuno ynghylch cysylltiadau cludiant da. Y Cyngor sy'n gyfrifol am y mwyafrif helaeth o ffyrdd cyhoeddus y Sir, fel yr Awdurdod Priffyrdd lleol. Ar ran Llywodraeth Cymru, mae Asiant Cefnffyrdd De Cymru yn gyfrifol am brif ffyrdd megis rhannau o'r M4, A40, A48, A477 a'r A483. Mae Trafnidiaeth Cymru, cwmni y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno, yn goruchwylio ac yn rhedeg y gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a Network Rail sy'n gyfrifol am isadeiledd y rheilffordd e.e. y cledrau, systemau signalau a thwneli. Mae Network Rail yn gwmni sector cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth y DU. Mae gwasanaethau bysiau yn y Sir yn gyfuniad o ddarpariaeth fasnachol a ariennir yn gyhoeddus a phreifat ac mae'r Cyngor yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith cyffredinol o reoli a chefnogi'r rhwydwaith."

5.8 Mae Sir Gâr yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd, gan anelu at fod yn awdurdod lleol di-garbon net erbyn 2030. Mae llifogydd yn destun pryder, ac mae mwy na 15,000 o fusnesau a chartrefi mewn perygl**.** Mae'r sir hefyd wedi gweld cynnydd mewn cyfraddau ailgylchu (70.49% yn 2023/24, gan ragori eisoes ar y targed cenedlaethol o 70% erbyn diwedd mis Mawrth 2025) a llai o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi (gostyngiad i 2.01% ac mae ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed cenedlaethol o beidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2025).

5.9 Mae'r Cyngor yn rhedeg 1 ysgol feithrin, 94 ysgol gynradd, 12 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig, gan addysgu mwy na 27,000 o ddisgyblion**.** Er bod y ddarpariaeth addysgol yn gadarn, mae angen gwella cyfraddau presenoldeb ac mae canlyniadau TGAU a Safon Uwch yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

5.10 O ran tai, mae fforddiadwyedd yn gadarnhaol o'i gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, ac mae ymdrechion yn canolbwyntio ar ddarparu cartrefi fforddiadwy ac atal digartrefedd. Bydd y Cyngor yn codi premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.

<u>Arweinyddiaeth Wleidyddol a Sefydliadol.</u>

5.11 Mae gan y Cyngor 75 o aelodau etholedig, sy'n cynrychioli 51 o wardiau etholiadol o ystod o grwpiau gwleidyddol. Fel arfer, byddant yn cyfarfod fel Cyngor llawn bob mis, ac mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn.

- Plaid Cymru - 37 Aelod
- Annibynnol - 12 Aelod
- Llafur - 19 Aelod
- Annibynnol a Digyswllt - 7 Aelod

5.12 Mae'r weinyddiaeth wedi'i chreu o glymblaid o Aelodau Plaid Cymru ac Aelodau Annibynnol ac mae'r Cynghorwyr hyn yn ffurfio'r Cabinet o 10 Aelod (7 Aelod Plaid Cymru a 3 Aelod Annibynnol) gan gynnwys Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru.

5.13 Mae gan y Cyngor 5 pwyllgor craffu:

- Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.
- Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio.
- Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg.
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd.

5.14 Y Tîm Rheoli Corfforaethol, a arweinir gan y Prif Weithredwr, Wendy Walters. Fel Pennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig, hi yw prif gynghorydd y Cyngor ac mae'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad dyddiol gwasanaethau'r Cyngor.

5.15 Ceir 5 cyfarwyddiaeth: Y Prif Weithredwr; Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Addysg; Gwasanaethau Corfforaethol; Cymunedau a; Lle, Isadeiledd a Datblygu Economaidd. Ceir cyfres o wasanaethau adrannol o fewn pob Cyfarwyddiaeth, a arweinir gan Bennaeth Gwasanaeth neu Arweinydd Gwasanaeth. Mae'r Panel yn ymwybodol bod y strwythur hwn ar fin cael ei ddiwygio yn dilyn ymadawiad y Dirprwy Brif Weithredwr i fod yn Brif Weithredwr ar brif Gyngor arall yng Nghymru.

## 6. Cryfderau a Meysydd Arloesi

6.1 Mae Cyngor Sir Gâr yn dangos diwylliant mewnol cadarn, sy'n seiliedig ar werthoedd a rennir a pharch at ei gilydd. Mae balchder sylweddol o fewn y sefydliad ac mae aelodau staff yn mynegi awydd i berfformio'n dda er budd Sir Gâr. Fe atgyfnerthir y farn gadarnhaol hon gan ddiwylliant sy'n seiliedig ar werthoedd sydd wedi'i sefydlu'n gadarn ar lefel Prif Swyddogion a'r Cabinet. Mae perthnasoedd o ymddiriedaeth a pharch yn enwedig, yn nodweddu'r rhyngweithio rhwng y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol, ac mae Aelodau Cabinet yn mynegi eu bod yn hyderus iawn o ran eu perthnasoedd gwaith gyda Swyddogion.

6.2 Yn ogystal, mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais cryf ar ragolwg strategol a threfniadau llywodraethu effeithiol. Mae craffu yn cael ei werthfawrogi'n fawr ac yn cael ei ystyried yn hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol ac er mwyn sicrhau cynhwysiant gwaith y Cyngor.

6.3 Cafwyd ymateb da gan Undebau llafur i sefydlu partneriaeth gymdeithasol, a ystyrir yn gyfle gwerthfawr i ailddiffinio a chryfhau cydweithio.

6.4 Mae dull rhagweithiol y Cyngor yn amlwg o ran y modd y mae'n meddwl yn gynnar a chadarn am atal, yn arbennig o fewn y Gwasanaethau Plant. Diffinnir y dull blaengar hwn yn glir yn y Strategaeth Gorfforaethol, sy'n cydnabod heriau a chyfleoedd allweddol sy'n gysylltiedig â phobl a lle yn effeithiol.

6.5 Fe atgyfnerthir y cryfderau mewnol hyn ymhellach gan yr ymdeimlad cadarn o gefnogaeth i aelodau staff gan y tîm rheoli corfforaethol, gan eu galluogi i fynd i'r afael â thasgau cymhleth gyda synnwyr o bosibilrwydd yn hytrach nag amhosibilrwydd -***"**Gwneud i dasg deimlo'n bosibl yn hytrach nag amhosibl.**"***

## 7. Heriau Lleol a Chenedlaethol

7.1 Mae Sir Gâr, fel pob Cyngor arall yng Nghymru, yn wynebu heriau sylweddol o ran cynaliadwyedd ariannol, er gwaethaf rhagolygon y flwyddyn bresennol, sy'n dangos tanwariant posibl o £942,000 yn y gyllideb refeniw yn dilyn addasiadau a derbyn cyllid ychwanegol. Y Gwasanaethau Plant ac Ysgolion yw'r meysydd sydd dan y pwysau ariannol mwyaf.

7.2 Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn rhagweld gorwariant net o £4.037 miliwn a phwysau ar draws sawl maes.

7.3 Rhagwelir y bydd gan ysgolion ddiffyg net cyffredinol o £2.9 miliwn yn y flwyddyn bresennol, er bod cyllidebau ysgolion yn gymharol ddiogel ers dechrau'r cyfnod o galedi ariannol. Roedd balansau o £5.2 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn, sy'n golygu gorwariant o £8.1 miliwn. Rhagwelir diffyg o £1.7 miliwn yn achos un ysgol uwchradd (£1.3 miliwn yn 2023/24). Nodir bod cyllideb 2025/26 yn cynnwys cynnydd ariannol o 7% ar gyfer ysgolion.

7.4 Mae'r Cyngor yn dangos dealltwriaeth o'r pwysau y mae'n ei wynebu, ond mae bwlch yn ei gynllun ariannol tymor canolig y bydd angen mynd i'r afael ag ef.

7.5 Gosodwyd cyllideb 2025/26 gyda chynnydd o 8.9% yn nhreth y Cyngor (6ed uchaf yng Nghymru) ac arbedion refeniw o £8.14 miliwn. Diwygiwyd y gyllideb yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, lle bu grwpiau allweddol yn ymgysylltu ac fe dderbyniwyd 2,900 o ymatebion. Dylid canmol y Cyngor am wneud addasiadau mewn ymateb i'r hyn a glywodd.

7.6 Mae'r wybodaeth ganlynol hefyd yn berthnasol fel cyd-destun ychwanegol:

- Cyngor Sir Gâr yw'r corff sy'n gyfrifol am Ranbarth Dinas Bae Abertawe. Dyma bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol Sir Gâr, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe a busnesau a sefydliadau eraill yn rhanbarth De-orllewin Cymru.
- Prif Weithredwr Cyngor Sir Gâr yw Prif Weithredwr arweiniol Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) De-orllewin Cymru ar hyn o bryd. Dyma gorff corfforaethol rhanbarthol a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru ac ymysg yr aelodau mae arweinwyr gweithredol Cynghorau Sir Gâr, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, yn ogystal ag aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn canolbwyntio ar les economaidd, ynni, cludiant a chynllunio strategol.
- Mae Cyfrif Refeniw Tai gan y Cyngor, gyda gwariant wedi'i gyllidebu o £54 miliwn yn 2025/26.
- Daw rhaglen gyfalaf 2025/26 i gyfanswm o £94.7 miliwn.
- Daeth Archwiliad Cynaliadwyedd Ariannol diweddar gan Archwilio Cymru i'r casgliad bod y *"dull trawsnewid sydd wedi'i ymgorffori gan y Cyngor yn darparu fframwaith strategol i gefnogi ei wytnwch ariannol mewn modd cadarnhaol."*

## 8. Trosolwg o'r Canfyddiadau.

**Ardaloedd lleol, fel y nodwyd gan y Cyngor, lle byddai barn cymheiriaid yn werthfawr fel rhan o'r asesiad Panel:**

**8.1 Pa gamau ataliol pellach y gallai'r Cyngor eu harchwilio er mwyn lleihau'r galw am wasanaethau yn y dyfodol a galluogi dad-ddwysáu mwy ar anghenion gofal i wasanaethau cefnogi lefel is.**

8.1.1 Mae Cyngor Sir Gâr yn dangos dull effeithiol o ddiogelu plant a gwella eu bywydau, a ysgogir gan garfan ymroddedig a hynod frwdfrydig o swyddogion. Yn ogystal â bod yn greadigol ac yn ddyfeisgar, mae'r swyddogion hyn hefyd yn canolbwyntio'n benodol ar eu dulliau gweithio. Mae'r ymroddiad hwn i'w weld yn amlwg mewn enghreifftiau cadarn o ymateb y Cyngor cyfan i atal ac ymyrraeth gynnar, sy'n cael ei grynhoi gan y fenter Mynediad Cynnar, "*Get in Early"*. At hynny, ceir enghreifftiau rhagorol o weithwyr cefnogi yn atal materion rhag gwaethygu a lleihau'r galw am ddarpariaethau statudol.

8.1.2 Fe ystyriodd y Panel pa gamau ataliol pellach y gallai'r Cyngor eu cymryd er mwyn lleihau'r galw am Wasanaethau Gwaith Cymdeithasol i Blant a'r galw i uwchgyfeirio. Daeth y Panel i'r casgliad bod gan y Cyngor sylfeini cryf i adeiladu arnynt ond ystyriodd fod angen mwy o raglennu a hynny'n gyflym.

| | |
|---|---|
| **1.1** | Mae'r Panel yn argymell y dylai'r Cyngor:<br>• Fanteisio i'r eithaf ar ffrydiau ariannu er mwyn cyflwyno'r arferion gorau i gefnogi atal a datblygiad cymunedol.<br>• Datblygu partneriaethau presennol er mwyn integreiddio ymhellach gyda phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned.<br>• Ymgorffori gwaith atal cynnar, pwysig o fewn y Rhaglen Drawsnewid ehangach ar gyfer y Gwasanaethau Plant.<br>• Datblygu gwaith partneriaeth ymhellach gyda sefydliadau cymunedol a'r sector gwirfoddol ar draws Sir Gâr er mwyn datblygu grym cymunedol.<br>• Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a datblygu'r gwaith integreiddio hynod effeithiol sydd ar waith ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion, er mwyn archwilio a fyddai modd gweithredu model tebyg ar gyfer y Gwasanaethau Plant. |

**8.2 Pa gam ychwanegol y gallai'r Cyngor ei gymryd i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng darparu gofal diogel ac effeithiol a chost y ddarpariaeth, er mwyn datblygu model busnes cynaliadwy ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol**.

8.2.1 Mae angen dull strategol ar gyfer rheoli costau yng Ngwasanaethau Plant Sir Gâr yn ogystal â sicrhau safonau diogelu uchel a daw peth tystiolaeth o hyn i'r amlwg trwy waith y gwasanaeth a'r Bwrdd Trawsnewid Plant. Mae llwyddiant yn dibynnu ar ymyrraeth gynnar, comisiynu mwy craff, diwygio sefydliadol a darparu gwasanaethau integredig. Mae rhai awdurdodau lleol yn y DU wedi dangos y gall mesurau wedi'u

targedu leihau costau heb effeithio ar ansawdd na diogelwch gwasanaethau i blant a theuluoedd diamddiffyn.

8.2.2 Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod buddsoddi mewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol yn un o'r strategaethau mwyaf effeithiol i unrhyw Gyngor. Drwy ddarparu cefnogaeth i deuluoedd cyn i broblemau waethygu, gall Cynghorau leihau'r angen am wasanaethau neu ymyriadau statudol drytach yn sylweddol. Ymhlith enghreifftiau ymarferol o fentrau o'r fath mae sefydlu canolfannau teulu, rhaglenni cefnogi rhianta a chynlluniau gwirfoddoli yn y gymuned. Mae'r mesurau hyn wedi profi'n llwyddiannus o ran gostwng cyfradd yr angen i blant dderbyn gofal, gan arwain at ganlyniadau gwell ac arbedion hirdymor. Clywodd y Panel am sawl enghraifft ragorol o fentrau o'r fath yn Sir Gâr.

8.2.3 Maes hollbwysig arall i ganolbwyntio arno yw defnyddio llai ar leoliadau preswyl drud. Mae'r lleoliadau hyn, er eu bod yn angenrheidiol, ymhlith y mathau drutaf o ofal. Clywodd y Panel fod Sir Gâr yn dangos dull cadarn drwy ddatblygu capasiti preswyl mewnol a chlywodd hefyd fod hyn yn cael ei gefnogi gan ddull Cyngor cyfan.

8.2.4 Mae gwella sefydlogrwydd a digonolrwydd lleoliadau hefyd yn hanfodol. Mae recriwtio a chadw Gofalwyr Maeth lleol yn galluogi Cynghorau i osgoi lleoliadau asiantaeth drud a chadw plant o fewn eu cymunedau, sy'n aml er eu lles pennaf. Yn ystod ymweliad y Panel â'r safle, nodwyd bod y Cyngor yn cynnal ymgyrch i annog pobl i ddod yn Ofalwyr Maeth. Gellir defnyddio adnoddau comisiynu effeithiol i fonitro a rheoli costau lleoliadau yn fwy effeithiol. Mae lleoli plant yn nes at adref hefyd yn lleihau costau cysylltiedig megis cludiant a darpariaeth arbenigol y tu allan i'r ardal ar gyfer awdurdodau lleol.

8.2.5 Mae integreiddio'r gwasanaethau Plant ac Oedolion yn cynnig cyfle arall i drawsnewid. Mae llawer o deuluoedd y mae'r Gwasanaethau Plant yn gweithio â nhw mewn cysylltiad hefyd â'r Gwasanaethau Oedolion, yn enwedig yn achos problemau megis camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl. Mae modelau gwasanaeth integredig yn sicrhau bod cymorth yn gyfannol ac yn lleihau dyblygu ymdrechion ar draws gwasanaethau. Mae'r model hwn yn hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn cynnig gwell cefnogaeth i deuluoedd sy'n profi heriau cymhleth. Bydd y newidiadau sydd ar y gweill i'r strwythur corfforaethol yn cryfhau ac yn ymgorffori integreiddio rhwng y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Oedolion.

8.2.6 Bydd Strategaeth Deallusrwydd Artiffisial a Data Sir Gâr o gymorth gyda defnyddio pŵer data a dadansoddeg ragfynegol i wella darpariaeth gwasanaeth cost effeithiol. Yn ogystal â gwella prosesau gwneud penderfyniadau ac olrhain achosion, mae'r adnoddau hyn hefyd yn rhyddhau amser gwerthfawr aelodau staff ac yn sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio yn y modd sy'n cael yr effaith fwyaf.

8.2.7 Gall trawsnewid y ddarpariaeth gwasanaeth drwy gydweithio â Chynghorau eraill neu sefydliadau trydydd sector hefyd helpu i sicrhau canlyniadau gwell ac arwain at arbedion ystyrlon. Mae'r trefniadau cydweithio hyn yn galluogi cynghorau i gadw rheolaeth strategol wrth elwa o gapasiti a rennir ac arbedion maint.

8.2.8 Ni archwiliodd y Panel arferion comisiynu, ond bydd Sir Gâr am barhau i asesu ei chapasiti a'i gallu drwy ei rhaglen wella. Gall trefniadau comisiynu ar y cyd â phartneriaid iechyd, yn ogystal â defnyddio contractau sy'n seiliedig ar ganlyniadau a chaffael mwy craff, arwain at well gwerth am arian. Drwy alinio cymhellion a

chanolbwyntio ar ganlyniadau, gall Cynghorau leihau'r galw ar wasanaethau, gan sicrhau bod gwariant yn canolbwyntio ar yr ymyriadau sydd â'r effaith gadarnhaol fwyaf.

8.2.9 Mae Sir Gâr yn dangos ymrwymiad clir i ddatblygu mwy o gapasiti a gwytnwch o ran ei gweithlu gofal cymdeithasol. Mae hyn yn allweddol gan fod rheoli'r gweithlu'n effeithiol yn hanfodol er mwyn cynnal ansawdd gwasanaethau a rheoli costau. Mae lleihau dibyniaeth ar staff asiantaeth a buddsoddi mewn datblygu a chadw staff gwaith cymdeithasol parhaol yn creu gweithlu mwy sefydlog a phrofiadol. Mae dull y Cyngor yn dangos ei fod wedi cymryd camau a fydd yn cefnogi mwy o sefydlogrwydd o ran y gweithlu, gan arwain at well parhad i blant a chostau recriwtio is dros amser.

8.2.10 Nid Sir Gâr yw'r unig Gyngor sy'n wynebu heriau â'i Wasanaethau Plant. Gall modelau gwasanaeth a rennir, dadansoddeg ragfynegol a strategaethau gweithlu wedi'u targedu oll gyfrannu at ddarparu gwasanaethau gwell am gost is. Mae'r Cyngor yn gweithredu ambell un o'r rhain eisoes ac mae'n rhaid iddo sicrhau bod ganddo ddigon o gapasiti i wneud yn siŵr bod y mesurau hyn yn creu fframwaith cynhwysfawr, y gellir ei addasu ar gyfer lleihau gwariant y Gwasanaethau Plant, wrth barhau i flaenoriaethu diogelwch, lles a chyfleoedd bywyd plant.

8.2.11 Wrth symud ymlaen, canolbwyntir yn bennaf ar ddatblygu capasiti sefydliadol ar draws adnoddau dynol ac ariannol, er mwyn cefnogi newid. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu'r strategaeth "Meithrin yn Fewnol" ymhellach drwy brentisiaethau a chefnogi aelodau staff gydag ennill cymwysterau perthnasol, gwn sicrhau bod sgiliau hanfodol yn cael eu meithrin yn fewnol.

8.2.12 Wrth ystyried pa gamau ychwanegol y gallai'r Cyngor eu cymryd i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng darparu gofal diogel ac effeithiol a chost y ddarpariaeth, er mwyn datblygu gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol, daeth y Panel i'r casgliad bod yr elfennau allweddol ar waith eisoes. Fodd bynnag, mae angen cryfhau ac ymestyn gweithgareddau sy'n cefnogi trawsnewid.

| | |
|---|---|
| 1.2 | Mae'r Panel yn argymell y dylai'r Cyngor:<br>• Gynyddu capasiti rheoli prosiectau er mwyn gwella rhaglennu a chyflymu'r broses o gyflawni trawsnewid.<br>• Rhoi'r adnoddau priodol ar waith sy'n angenrheidiol i gyflawni trawsnewid (gan gynnwys sefydlu Cronfa Wrth Gefn Trawsnewid y Cyngor y cyfeirir ati yn Argymhelliad 3).<br>• Rhoi trefniadau monitro cadarn ar waith ar gyfer yr holl waith peilot, gan gynnwys adolygiadau trothwy a symud yn gyflym pan fydd y canlyniadau a ddymunir wedi'u cyflawni.<br>• Sicrhau bod data yn llywio ac yn sail i benderfyniadau, a bod hynny'n cael ei wneud o fewn fframwaith y Strategaeth Deallusrwydd Artiffisial a Data newydd. |

## 9. Cyfleoedd i Wella: Argymhellion

9.1 Ar ôl cynnal adolygiad o'r deunyddiau a ddarllenwyd ymlaen llaw, cyfarfodydd rhagarweiniol a'r adborth gwerthfawr a dderbyniwyd yn ystod yr ymweliad â'r safle, mae'r Panel wedi nodi cyfleoedd i wella mewn 3 maes ychwanegol a nodir yn y tablau isod: Cynllunio Ariannol, Trawsnewid ac Arloesi ac Addysg ac Ysgolion.

9.2 Cynllunio Ariannol.

9.2.1 Mae'r adran hon yn nodi camau gweithredu mewn perthynas ag agwedd hanfodol i unrhyw awdurdod lleol. Dylid eu hystyried ochr yn ochr ag adran 7, lle tynnwn sylw at rai o'r heriau cynaliadwyedd ariannol sylweddol y mae Sir Gâr a phob Cyngor yng Nghymru yn eu hwynebu. Trafodwn hyn ymhellach yn adran 12, sy'n asesu'r graddau y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

| | |
|---|---|
| 2. | Mae'r Panel yn argymell y dylai'r Cyngor:<br>• Roi Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar waith i gefnogi sicrhau gwytnwch sefydliadol, cydbwysedd ariannol a'r Strategaeth Gorfforaethol.<br>• Defnyddio polisi cronfeydd wrth gefn adrannol i greu cronfa wrth gefn benodol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Trawsnewid.<br>• Adolygu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ystod y flwyddyn a sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r Strategaeth Trawsnewid, er mwyn darparu sicrwydd o ran cyflawni effeithlonrwydd a lleihau gwariant. |

9.3 Trawsnewid ac Arloesi.

9.3.1 Mae trawsnewid ac arloesi wedi bod yn thema gyffredinol bwysig i'r Cyngor a'r APP. Cyfeirir at y thema hon drwy gydol yr adroddiad ac mae'r camau gweithredu penodol ar gyfer gwella wedi'u casglu ynghyd isod fel argymhellion. Fe'u cefnogir hefyd gyda gwybodaeth ychwanegol ar bwysigrwydd cysylltu Cronfa Wrth Gefn Trawsnewid y Cyngor gyda Strategaeth Trawsnewid y Cyngor.

9.3.2 Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi o gronfeydd wrth gefn adrannol ac mae'r defnydd cyntaf o'r rhain yn lliniaru unrhyw orwariant yn ystod y flwyddyn bresennol; mae'n rhaid i unrhyw ddefnydd arfaethedig o falansau a gedwir gael ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ac Aelod Cabinet y Gwasanaeth.

9.3.3 Caiff y symiau yn y cronfeydd wrth gefn hyn eu monitro a'u hadrodd i'r Cyngor fel rhan o broses y gyllideb. Fodd bynnag, mae'r polisi'n pwysleisio y dylai adrannau fod yn ymwybodol y gall y Cyngor, wrth adolygu'r sefyllfa, benderfynu defnyddio'r cronfeydd hyn er budd corfforaethol, os bydd angen.

9.3.4 Nododd y Panel yr uchelgais i drawsnewid y Cyngor ac mae wedi argymell bod Sir Gâr yn ystyried diweddaru ei Strategaeth Trawsnewid, sydd wedi bod ar waith ers 2022. Bydd angen cyllid i gefnogi'r fenter hon, a dylid sefydlu Cronfa Wrth Gefn Trawsnewid o gronfeydd wrth gefn adrannol. Bydd angen ymdrin â hyn yn ofalus, ond mae graddfa'r uchelgais gorfforaethol a ddangoswyd gan yr Arweinydd a'r Cabinet yn

golygu bod angen cronfa wrth gefn addas i gyd-fynd â'r Strategaeth Trawsnewid ddiwygiedig.

| | |
|---|---|
| 3. | Mae'r Panel yn argymell y dylai'r Cyngor:<br>• Adolygu, adnewyddu ac ail-lansio ei ddull trawsnewid a dylid darparu adnoddau ar gyfer y Strategaeth Trawsnewid newydd, er mwyn sicrhau ei bod yn ateb y gofyn o ran yr heriau presennol.<br>• Sicrhau bod y Strategaeth newydd yn un lefel uchel a thrawsbynciol, er mwyn llywio model gweithredu targed ar gyfer y Cyngor a chanolbwyntio ar amcanion gwasanaeth penodol.<br>• Cyfuno strategaethau ategol e.e. strategaethau digidol a'r gweithlu, er mwyn cefnogi ac egluro'r cyfeiriad.<br>• Sicrhau bod cymunedau wrth wraidd y strategaeth – ymgysylltu â hwy ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddynt a chanfod ffyrdd newydd o gydweithio.<br>• Cyfathrebu ac ymgysylltu ar draws y Cyngor i fod yn sail i'r gweithrediad.<br>• Cydweithio â phartneriaid ac archwilio rhannu gwasanaethau, yn ogystal â'r hyn y mae modd ei wneud ar y cyd.<br>• Edrych y tu hwnt i'w ffiniau, gan ddatblygu rhwydweithiau presennol, a dysgu gan eraill. |

9.4 <u>Addysg ac Ysgolion</u>

9.4.1 Er nad oedd addysg ac ysgolion yn faes lleol penodol ychwanegol i'w ystyried o fewn y cylch gorchwyl, roedd yr agwedd hon ar wasanaethau'r Cyngor i'w gweld yn amlwg yn yr asesiad. Roedd hyn yn sgil nifer o ffactorau gan gynnwys ambell benderfyniad cyfredol yr oedd y Cyngor yn delio â nhw, ac fe adlewyrchir y rhain yn yr argymhellion sydd i'w gweld isod. I gael dealltwriaeth fwy trylwyr, dylid eu darllen ochr yn ochr ag adran 7 sy'n ystyried rhai o'r heriau cynaliadwyedd sylweddol sy'n effeithio ar Sir Gâr a holl Gynghorau Cymru, ac adran 12 sy'n ystyried i ba raddau y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

| | |
|---|---|
| 4. | Mae'r Panel yn argymell y dylai'r Cyngor:<br>• Weithredu i fynd i'r afael â nifer y diffygion o ran cyllidebau ysgolion. Lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, dylai'r Cyngor ddefnyddio'r polisi "diffyg trwyddedig" mewn modd strategol.<br>• Parhau i ganolbwyntio ar faterion a heriau penodol i safle sy'n effeithio ar ysgolion unigol.<br>• Cyflwyno'r "Rhaglen Moderneiddio Addysg" er mwyn mynd i'r afael â phroblemau capasiti gormodol ac optimeiddio ôl troed cyffredinol ystâd yr ysgol. Dylai'r rhaglen hon lywio buddsoddiad rhaglen gyfalaf a phenderfyniadau ynghylch y "rhaglen cymunedau dysgu cynaliadwy".<br>• Cynnal momentwm yr adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion, sy'n bwysig.<br>• Datblygu trafodaethau cynnar, ond cadarnhaol ynghylch addysg ôl-16. |

## 10. Sylwadau gan y Panel.

10.1 Y tu hwnt i'r cyfleoedd gwella yn adrannau 8 a 9, lluniodd y Panel yr awgrymiadau canlynol - yn hytrach nag argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - y mae'n credu y gallent fod o fantais i'r Cyngor yn y dyfodol.

10.2 Mae gan y Cyngor **stori rymus** i'w hadrodd ond nid yw'n ei bloeddio! Er bod yna naratif cadarn, nid yw'n cael ei gyfleu i'w lawn botensial, ac felly collir cyfle i arddangos yr effaith a'r hyn sy'n cael ei gyflawni yn effeithiol.

10.3 Nododd y Panel y trefniadau gwych o ran **Cefnogi Aelodau** ac, er bod y Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol, dylai barhau i adolygu'r Gwasanaeth Ymholiadau Aelodau, Datblygu Aelodau, a rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau effeithiolrwydd parhaus.

10.4 O ran **strategaeth y gweithlu** a chefnogi trawsnewid, dylai'r Cyngor ddefnyddio ei fframwaith cymhwysedd yn llawn, datblygu prosesau cynllunio olyniaeth ymhellach, cefnogi newid gyrfa a sicrhau bod trefniadau priodol ar waith mewn unrhyw achos o leihau niferoedd gweithwyr.

10.5 O ran **atal**, mae gwaith buddiol wedi dechrau a gellir gweithredu hyn. O bosibl y bydd y Cyngor yn dymuno ystyried sut y gall ymgorffori atal yn naturiol o fewn trefniadau presennol, yn hytrach na datblygu strategaeth ychwanegol ar wahân.

10.6 Roedd **y gymuned fusnes** yn ystyried ei hymgysylltiad â'r Cyngor fel un cadarnhaol. Mae busnesau yn gweld gwerth yn y berthynas hon ac yn dymuno ymgysylltu mwy gyda'r Cyngor, ond ar sail fwy anffurfiol. O bosibl y bydd y Cyngor yn dymuno archwilio sut y gellir cyflawni hyn er mwyn cryfhau cysylltiadau ymhellach.

10.7 **Cyngor yr Ifanc** – Mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r berthynas sydd ganddynt â'r Cyngor, yn ogystal â'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn gan weithwyr cefnogi. Mae sylfeini cadarn ar waith er mwyn mynd â'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda phobl ifanc i'r lefel nesaf.

10.8 Mae gan y Sir **Sector Gwirfoddol** cyfoethog a bywiog i gefnogi gweithio mewn ardaloedd a dylai'r Cyngor ystyried partneriaethau newydd a sut y gall gynyddu potensial y sector a nifer y bobl sy'n gwirfoddoli.

10.9 **Cynghorau Tref a Chymuned** – Mae gan y Cyngor enghreifftiau gwych o waith lleol a chydweithio â'r sector ac mae'r Panel o'r farn y dylai'r Cyngor ddatblygu hyn ymhellach er mwyn cefnogi cymunedau lleol ledled Sir Gâr.

## Meysydd statudol a ystyriwyd gan y Panel.

### 11.0 Y graddau y mae'r Cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol.

11.1 Mae'r Cyngor yn gweithredu gyda dealltwriaeth gadarn o rolau penodol Aelodau a Swyddogion ac yn cyfrannu at atebolrwydd pendant a phrosesau gwneud penderfyniadau effeithlon. Ceir tystiolaeth bellach o'r eglurder hwn o ran canlyniadau cadarnhaol arolygiadau ac archwiliadau gan reoleiddwyr, gan gynnwys y datganiad cyfrifon, i enwi un yn unig. Mae'r asesiadau ffafriol hyn yn adlewyrchu cadernid rheolaeth ariannol ac uniondeb gweithredol y Cyngor.

11.2 Ar lefel arweinwyr, mae diwylliant agored ac atyniadol sy'n sail i ymagwedd sy'n credu mewn gallu i gyflawni, gan feithrin amgylchedd lle caiff heriau eu datrys gydag atebion rhagweithiol. Mae hyn i'w weld yn benodol yn y broses ymgynghori hynod effeithiol ar y gyllideb, a arweiniodd at ddiwygiadau ystyrlon i'r gyllideb, gan ddangos ethos pendant **"**fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni".

11.3 At hynny, mae'r Cyngor yn dangos sawl enghraifft o waith partneriaeth effeithiol yn gyson, gan fanteisio ar gydweithio allanol i gyflawni amcanion cyffredin ar gyfer Sir Gâr.

11.4 Wrth symud ymlaen, mae'n hanfodol bod gan Aelodau a Swyddogion ddealltwriaeth glir o'r pwysau sylweddol o ran galw mewn meysydd allweddol. Mae'n rhaid i'r ymwybyddiaeth uwch hon lywio penderfyniadau amserol ac effeithiol yn uniongyrchol, yn arbennig mewn perthynas ag addysg ac ysgolion sy'n wynebu heriau unigryw ac enbyd.

11.5 Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod gan y sefydliad y capasiti angenrheidiol i gyflawni mentrau allweddol. Mae hynny'n cynnwys cael digon o staff ac adnoddau, yn ogystal â'r setiau sgiliau a'r fframweithiau gweithredol cywir i drosi cynlluniau strategol yn ganlyniadau gweladwy i'r gymuned.

**12. Y graddau y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.**

12.1 Mae'r arbenigedd ariannol sylweddol o amgylch bwrdd y Tîm Rheoli Corfforaethol o fantais i'r Cyngor, gan sicrhau arweiniad strategol a goruchwyliaeth gadarn. Ategir hyn gan Aelodau hynod ymroddedig a chymwys, sydd â dealltwriaeth drylwyr o'u portffolios priodol. Mae'r trefniadau colegol o fewn y Cabinet ar osod cyllidebau yn meithrin dull cydweithredol o gynllunio ariannol ac mae diwylliant agored a gonest iawn ar lefelau gwleidyddol a swyddogion, a nodweddir gan barodrwydd i "siarad y gwir yng ngwyneb pŵer" - hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd. Mae'r broses cynllunio cyllideb ei hun yn un drylwyr, haenog a manwl, gyda thrafodaethau cynhwysol sy'n cynnwys budd-ddeiliaid gwleidyddol a swyddogion.

12.2 Yn ogystal, mae trefniadau adolygu a rheoli perfformiad yn rhai cynhwysfawr a thrylwyr, a chaiff camau adferol eu cymryd yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni ac y rhoddir sylw prydlon i unrhyw wyriadau.

12.3 Wrth symud ymlaen, mae'n hanfodol bod strategaeth ariannol tymor canolig gadarn ar waith i gefnogi cyflawni'r cynllun corfforaethol a sicrhau hyfywedd ariannol yn y dyfodol. Bydd y ddogfen strategol hon yn ganolog i iechyd ariannol hirdymor y Cyngor. Mae angen cynyddol hefyd am gamau pendant i fynd i'r afael â chyllidebau a diffygion ysgolion, ac mae hynny'n her sy'n gofyn am ddatrysiadau creadigol a sylw parhaus.

12.4 Mae'n rhaid cynnal momentwm o ran y gwaith trawsnewid, a dylid sicrhau bod y Strategaeth Trawsnewid drosfwaol yn cyd-fynd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'i bod yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, fel ei bod yn parhau'n berthnasol ac yn effeithiol.

12.5 Dylai'r Cyngor roi ystyriaeth ofalus i ddull diwygiedig o ymdrin â chronfeydd wrth gefn, gan wneud y defnydd gorau ohonynt i gefnogi mentrau strategol a meithrin mwy o wytnwch ariannol.

12.6 Mae sicrhau gwerth am arian yn bwysig i unrhyw Gyngor. Un elfen sy'n cefnogi unrhyw asesiad yw bod gan Sir Gâr hanes rhagorol o fodloni ei gofynion o ran cyfrifon statudol. Fodd bynnag, mae mwy i werth am arian na pherfformiad cyfrifon yn unig ac mae hefyd yn ymdrin rhywfaint â threfniadau llywodraethu a chraffu.

12.7 Yn Sir Gâr, mae lefel uchel o ddealltwriaeth o'r angen i sicrhau gwerth am arian, ac mae cyfle nawr i ymgorffori sut mae hyn yn berthnasol i unigolion, eu rolau a'u gweithrediadau dyddiol. Dylid gwneud rhagor o waith i ddiffinio beth mae gwerth am arian yn ei olygu i'r Cyngor, fel bod y ddealltwriaeth hon yn rhan annatod o'r Strategaeth Gorfforaethol, y Strategaeth Trawsnewid ddiwygiedig, y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig newydd, rhaglenni gwaith craffu ac arferion gweithredol ar draws pob lefel yn y sefydliad.

12.8 Mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio annibynnol ac effeithiol yn chwarae rhan allweddol wrth helpu unrhyw Gyngor i benderfynu a yw'n cynnig gwerth am arian i'w breswylwyr. Canfu'r Panel bod gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Sir Gâr ddull rhagweithiol o gyflawni ei rôl a dylid ei ganmol am gomisiynu archwiliad mewnol i gynnal adolygiadau manwl o feysydd allweddol y Gwasanaethau Plant ac Ysgolion, gan fod y rhain yn feysydd o risgiau ariannol. Mae'n bwysig bod y sefydliad yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw gasgliadau, gan fod y Pwyllgor yn defnyddio sgiliau a chraffu allanol o ran gweithgarwch y Cyngor. Mae'r adolygiadau manwl gan y Pwyllgor wedi'u cynnal gyda chefnogaeth lawn gan y Cyngor a dyma dystiolaeth o ddull cadarn.

## 13. Y graddau y mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith gan y Cyngor.

13.1 Mae'r Cyngor yn diffinio Llywodraethu Corfforaethol fel "gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, ar gyfer y bobl gywir, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol."

13.2 Mae ymddiriedaeth a pharch amlwg rhwng Aelodau a Swyddogion, gan feithrin amgylchedd sy'n caniatáu trafodaethau agored a chadarn, sy'n hanfodol o ran trefniadau llywodraethu effeithiol. Y tu hwnt i hyn, ceir perthnasoedd cadarn a chynhyrchiol ar draws y bwrdd rhwng Aelodau ac Uwch Swyddogion, gan hwyluso cydweithio.

13.3 Mae cytundeb y glymblaid yn gweithredu'n dda, gan ddangos aliniad gwleidyddol effeithiol ac mae'r berthynas rhwng Aelodau yn un barchus ac adeiladol, gan gyfrannu at gorff penderfynu cydlynol. Caiff yr arferion cadarn hyn eu hadlewyrchu hefyd mewn adroddiadau cadarnhaol gan reoleiddwyr, gan gadarnhau ymrwymiad y Cyngor i safonau uchel.

13.4 Mae craffu'n cael ei werthfawrogi o fewn y Cyngor ac mae dulliau pendant ar waith ac yn cael eu defnyddio'n weithredol ar gyfer craffu cyn gwneud penderfyniadau. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn sicrhau adolygiad trylwyr cyn i benderfyniadau allweddol gael eu cwblhau. Mae'r Cabinet yn rhagweithiol yn y modd y mae'n ceisio barn y pwyllgorau craffu ac mae deiliaid portffolio yn arddangos arweinyddiaeth gadarn yn gyson yn ystod prosesau craffu, gan amlygu ymrwymiad i drefniadau llywodraethu tryloyw ac atebol.

13.5 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gadarn ac yn gweithredu'n effeithiol, gan chwarae rhan hanfodol wrth gynnal uniondeb ariannol ac arferion da.

13.6 Mae'r Cyngor yn cynnal trefniadau cofrestr risg hynod gynhwysfawr, sy’n cael eu symleiddio a’u blaenoriaethu ar hyn o bryd er mwyn gwella eu heffeithiolrwydd a chanolbwyntio ar y risgiau mwyaf critigol.

13.7 Wrth symud ymlaen, mae'n bwysig bod y broses o wneud penderfyniadau yn cael ei chyflymu. Mae'r cyflymiad hwn yn hanfodol fel bod modd i’r Cyngor ymateb yn effeithiol i fynd i’r afael â heriau, hybu trawsnewid angenrheidiol a sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol. Bydd gweithredu mewn modd amserol a phendant yn allweddol o ran llywio’r dirwedd newidiol a diogelu lles hirdymor y gymuned.

## 14. Cefnogaeth i Wella

Os hoffech chi drafod unrhyw gefnogaeth arall i wella, cysylltwch â Jo Hendy, Pennaeth Gwelliant CLILC.

## 15. Cydnabyddiaeth

Dymuna’r Panel a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddiolch i'r Cyngor am ei ymgysylltiad drwy gydol yr Asesiad Perfformiad Panel ac yn benodol hoffem ddiolch yn arbennig i’r Arweinydd, y Cynghorydd Darren Price a’r Prif Weithredwr, Wendy Walters am eu cefnogaeth ac am fod yn agored. Hoffem estyn ein gwerthfawrogiad a diolch hefyd i’r Swyddogion canlynol yn y Cyngor am eu cefnogaeth amhrisiadwy i gydlynu ceisiadau am ddogfennau, ymatebion i ymholiadau, trefnu cyfarfodydd a gweithdai a darparu cefnogaeth ar y safle:

Gwyneth Ayres - Rheolwr Partneriaeth, Perfformiad a Pholisi Corfforaethol.

Rachel Clegg - Rheolwr Perfformiad a Mewnwelediad Data.

Abigail Cole, Swyddog Perfformiad a Mewnwelediad Data.

Julia Harries, Swyddog Gwybodaeth Cynorthwyol.

Lesley Rees, Swyddog Ymchwil Data.

Lisa Lewis, Swyddog Polisi.

Llinos Evans, Rheolwr Polisi a Chyfranogiad.

Luke Howells, Rheolwr Perfformiad Strategol.

Mandy Rogers, Swyddog Mewnwelediad Data.

Sioned Raymond, Swyddog Polisi a Swyddog Partneriaeth.

**Atodiad: Meysydd a argymhellwyd ar gyfer gwella**

1. Maes Lleol Ychwanegol i'w Ystyried – (Darperir un argymhelliad, a gyflwynir mewn dwy ran (1.1 ac 1.2), ar gyfer y maes lleol ychwanegol hwn i'w ystyried).

1.1 "*Pa gamau ataliol pellach y gallai'r Cyngor eu harchwilio er mwyn lleihau'r galw am wasanaethau yn y dyfodol a galluogi dad-ddwysáu mwy ar anghenion gofal i wasanaethau cefnogi lefel is.*"

Mae'r Panel yn argymell y dylai'r Cyngor:

- Fanteisio i'r eithaf ar ffrydiau ariannu er mwyn cyflwyno'r arferion gorau i gefnogi atal a datblygiad cymunedol.
- Datblygu partneriaethau presennol er mwyn integreiddio ymhellach gyda phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned.
- Ymgorffori gwaith atal cynnar, pwysig o fewn y Rhaglen Drawsnewid ehangach ar gyfer y Gwasanaethau Plant.
- Datblygu gwaith partneriaeth ymhellach gyda sefydliadau cymunedol a'r sector gwirfoddol ar draws Sir Gâr er mwyn datblygu grym cymunedol.
- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a datblygu'r gwaith integreiddio hynod effeithiol sydd ar waith ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion, er mwyn archwilio a fyddai modd gweithredu model tebyg ar gyfer y Gwasanaethau Plant.

1.2 "*Pa gam ychwanegol y gallai'r Cyngor ei gymryd i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng darparu gofal diogel ac effeithiol a chost y ddarpariaeth, er mwyn datblygu model busnes cynaliadwy ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol*."

Mae'r Panel yn argymell y dylai'r Cyngor:

- Gynyddu capasiti rheoli prosiectau er mwyn gwella rhaglennu a chyflymu'r broses o gyflawni trawsnewid.
- Rhoi'r adnoddau priodol ar waith sy'n angenrheidiol i gyflawni trawsnewid (gan gynnwys sefydlu Cronfa Wrth Gefn Trawsnewid y Cyngor y cyfeirir ati yn Argymhelliad 3).
- Rhoi trefniadau monitro cadarn ar waith ar gyfer yr holl waith peilot, gan gynnwys adolygiadau trothwy a symud yn gyflym pan fydd y canlyniadau a ddymunir wedi'u cyflawni.
- Sicrhau bod data yn llywio ac yn sail i benderfyniadau, a bod hynny'n cael ei wneud o fewn fframwaith y Strategaeth Deallusrwydd Artiffisial a Data newydd.

2. Cynllunio Ariannol.

Mae'r Panel yn argymell y dylai'r Cyngor:

- Roi Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar waith i gefnogi sicrhau gwytnwch sefydliadol, cydbwysedd ariannol a'r Strategaeth Gorfforaethol.
- Defnyddio polisi cronfeydd wrth gefn adrannol i greu cronfa wrth gefn benodol i gyflawni'r Strategaeth Trawsnewid.
- Adolygu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ystod y flwyddyn a sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r Strategaeth Trawsnewid, er mwyn darparu sicrwydd o ran cyflawni effeithlonrwydd a lleihau gwariant.

3. Trawsnewid ac Arloesi.

Mae'r Panel yn argymell y dylai'r Cyngor:

- Adolygu, adnewyddu ac ail-lansio ei ddull trawsnewid a dylid darparu adnoddau ar gyfer y Strategaeth Trawsnewid newydd, er mwyn sicrhau ei bod yn ateb y gofyn o ran yr heriau presennol.
- Sicrhau bod y Strategaeth newydd yn un lefel uchel a thrawsbynciol, er mwyn llywio model gweithredu targed ar gyfer y Cyngor a chanolbwyntio ar amcanion gwasanaeth penodol.
- Cyfuno strategaethau ategol e.e. strategaethau digidol a'r gweithlu, er mwyn cefnogi ac egluro'r cyfeiriad.
- Sicrhau bod cymunedau wrth wraidd y strategaeth – ymgysylltu â hwy ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddynt a chanfod ffyrdd newydd o gydweithio.
- Cyfathrebu ac ymgysylltu ar draws y Cyngor i fod yn sail i'r gweithrediad.
- Cydweithio â phartneriaid ac archwilio rhannu gwasanaethau, yn ogystal â'r hyn y mae modd ei wneud ar y cyd.
- Edrych y tu hwnt i'w ffiniau, gan ddatblygu rhwydweithiau presennol, a dysgu gan eraill.

4. Addysg ac Ysgolion

- Mae'r Panel yn argymell y dylai'r Cyngor:
- Weithredu i fynd i'r afael â nifer y diffygion o ran cyllidebau ysgolion. Lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, dylai'r Cyngor ddefnyddio'r polisi "diffyg trwyddedig" mewn modd strategol.
- Parhau i ganolbwyntio ar faterion a heriau penodol i safle sy'n effeithio ar ysgolion unigol.
- Gweithredu'r "Rhaglen Moderneiddio Addysg." mynd i'r afael â phroblemau capasiti gormodol ac optimeiddio ôl troed cyffredinol ystâd yr ysgol. Dylai'r rhaglen hon lywio buddsoddiad rhaglen gyfalaf a phenderfyniadau ynghylch y "rhaglen cymunedau dysgu cynaliadwy".
- Cynnal momentwm yr adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion, sy'n bwysig.
- Datblygu trafodaethau cynnar, ond cadarnhaol ynghylch addysg ôl-16.

**Lluniwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Mehefin 2025**